# CYLCHLYTHYR PWYLLGOR DEINTYDDOL CYMRU

# PDC

## Gorffennaf 2025



## Ymgynghoriad ar ddiwygio gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru

- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 27 Mawrth a 19 Mehefin 2025, ynghylch eu cynnig am gontract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd y GIG i'w weithredu ym mis Ebrill 2026.
- Hoffai Pwyllgor Deintyddol Cymru ddiolch i bob aelod o'r proffesiwn, a chleifion, a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.
- Mae Pwyllgor Deintyddol Cymru wedi gwneud cryn dipyn o waith ar ein hymateb eu hunain, gyda dau gyfarfod ychwanegol wedi'u hychwanegu at ein hamserlen.
- Y cam nesaf yw i Lywodraeth Cymru ddarllen yr ymatebion, nodi patrymau, a myfyrio ar unrhyw feysydd o'r cynnig sydd angen eu datblygu ymhellach.

## Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru

**Un o rolau Pwyllgor Deintyddol Cymru, fel y disgrifir yn ein datganiad cenhadaeth yw “darparu cyd-destun yn y byd go iawn i lywio a llunio polisi”.**

**Pum blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru yw:**
**·Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd**
**·Hybu ymddygiad iach**
**·Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar**
**·Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus**
**·Diogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i iechyd y boblogaeth**

**Ein nod yw gweithio o fewn y strwythur hwn, gan ddarparu gweledigaeth o sut beth fyddai deintyddiaeth yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu gwneud hyn dros y misoedd nesaf drwy gyhoeddi Datganiadau Sefyllfa ar amrywiaeth o egwyddorion sy'n ymwneud â Cymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**


# Tri Datganiad Sefyllfa Pwyllgor Deintyddol Cymru

Mae datganiad sefyllfa yn ddogfen ffurfiol sy'n amlinellu ein safbwynt swyddogol ar fater penodol. Byddant yn rhoi cyd-destun cefndir, safbwynt diamwys clir, rhesymeg dros y safbwynt, argymhellion, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Bydd ein datganiadau yn cael eu cyhoeddi ar-lein a dylid eu defnyddio i lywio polisi, datblygu gwasanaethau, ac ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae Pwyllgor Deintyddol Cymru wedi pleidleisio ar ba dri phwnc fydd yn ffurfio ein datganiadau sefyllfa cyntaf ac mae wedi penderfynu y byddant fel a ganlyn:

- Deintyddiaeth Wyrddach
- Dileu Anghydraddoldeb Iechyd y Geg
- Darparu Gofal Deintyddol i Bobl Agored i Niwed



## Byddem yn croesawu eich cyfraniad...

**Anfonwch neges e-bost at adam.porter2@wales.nhs.uk gydag unrhyw wybodaeth berthnasol rydych yn credu y dylid ei chynnwys mewn unrhyw un o'r datganiadau sefyllfa a restrir isod.**

## Datganiad Sefyllfa 1: Deintyddiaeth Wyrddach

Rydym wedi rhannu llawer o wybodaeth am y pwnc hwn mewn cylchlythyrau blaenorol. Bydd y datganiad sefyllfa yn cael ei adeiladu o amgylch:

·Egwyddorion Lleihau; Ailddefnyddio; Ailgylchu; Ailfeddwl
·Gall newidiadau bach ychwanegu at newid sylweddol
·Dylid cynnwys cynaliadwyedd ym mhob penderfyniad a chynllunio
·Cefnogi llif gwaith digidol a moderneiddio
·Ceisio tystiolaeth ynghylch ailbrosesu yn erbyn ailgylchu

Pa wybodaeth rydych yn meddwl y dylem ei chynnwys i gynorthwyo lleihau gwastraff, arbed ynni, sicrhau gwasanaethau cynaliadwy, a defnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar?



https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau/gofal-sylfaenol-gwyrddach/



# DATGANIAD SEFYLLFA 2: DILEU ANGHYDRADDOLDEB IECHYD Y GEG

Cymru fydd 'cenedl Marmot' gyntaf y byd fel rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

16 Mehefin 2025

## EGWYDDORION MARMOT

Nod wyth egwyddor yr arbenigwr iechyd cyhoeddus Syr Michael Marmot yw dileu gwahaniaethau annheg y gellid eu hosgoi ym maes iechyd, gwahaniaethau sy'n gallu cael eu hachosi gan ble mae pobl yn byw, pa fath o waith y maent yn ei wneud a sut y maent yn cael eu trin mewn cymdeithas.

1. Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn.
2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i fanteisio i'r eithaf ar ei alluoedd a sicrhau rheolaeth dros ei fywyd.
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
4. Sicrhau safon byw iach i bawb.
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy.
6. Cryfhau rôl ac effaith atal salwch.
7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'u canlyniadau.
8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'i gilydd.

### Cymhwyso'r egwyddorion hyn i iechyd y geg

Sut y gall y proffesiwn deintyddol ddileu anghydraddoldeb?
A yw gwasanaethau deintyddol yn y lle cywir, ar yr adeg gywir?
A ydynt yn deg?
Sut y gallwn gasglu data a monitro newid?
A yw'r llwybrau yn hygyrch?
Pa anghenion sydd heb eu diwallu ar hyn o bryd?

**A oes unrhyw wybodaeth benodol rydych yn credu y dylem ei chynnwys yn ein datganiad sefyllfa?**




Darparwyd y llun gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

https://www.llyw.cymru/cymru-fydd-cenedl-marmot-gyntaf-y-byd-i-fynd-ir-afael-ag-anghydraddoldebau-iechyd

# DATGANIAD SEFYLLFA 3: DARPARU GWASANAETHAU DEINTYDDOL I BOBL AGORED I NIWED

Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru Awst 2022, diffiniwyd pobl agored i niwed fel 'y rhai sydd wedi gweld anghydraddoldeb o ran eu profiad o afiechydon a/neu eu mynediad at ofal'.

Mae pobl agored i niwed yn aml yn wynebu risg uwch o glefyd deintyddol a chlefyd y geg ac maent yn debygol o gynnwys y rhai nad ydynt yn gallu:

- cydweithredu â gofal deintyddol arferol;
- deall yr agen am ofal deintyddol a hylendid y geg da;
- cynnal hylendid y geg da heb gymorth; a
- chael mynediad hawdd at wasanaethau deintyddol (e.e. cleifion y mae angen teclyn codi arnynt er mwyn trosglwyddo i'r gadair ddeintyddol).

Gallant hefyd fod:
- yn bobl ag anghenion iechyd cymhleth a all gynnwys anghenion meddygol, corfforol, neu iechyd meddwl;
- dan anfantais gymdeithasol, gan gynnwys ceiswyr lloches, pobl ddigartref, a phobl ag anhwylderau camddefnyddio sylweddau;
- Plant sy'n Derbyn Gofal, neu blant â chlefyd deintyddol yr effeithir yn ddifrifol arnynt a/neu nad ydynt yn cael eu cymryd i dderbyn gofal deintyddol; a
- phobl hŷn fregus ac agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda dementia a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu cael mynediad at ofal gan y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.



## Sut y gall gwasanaethau deintyddol gynorthwyo pobl agored i niwed yn well?

Anfonwch neges e-bost at adam.porter2@wales.nhs.uk gydag unrhyw wybodaeth rydych yn teimlo y dylid ei hystyried wrth ddatblygu ein datganiad sefyllfa Pwyllgor Deintyddol Cymru.

Sut mae ein gwasanaeth yn cymharu â 10 mlynedd yn ôl?
Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y newid hwn?
Pa newidiadau yr hoffem eu gweld dros y 10 mlynedd nesaf?
Pa welliannau fyddent yn eu sicrhau?
Beth yw'r rhwystrau sy'n atal newid?

https://www.llyw.cymru/rol-y-gwasanaeth-deintyddol-whc2022022

# BWYDO AR Y FRON AC IECHYD Y GEG

Yn 2023, roedd 41% o fabanod yng Nghymru yn cael eu bwydo ar y fron pan oeddent yn 6 wythnos oed, gan ostwng i 29% pan oeddent yn 6 mis.

Weithiau mae dryswch ynghylch cysylltiadau rhwng bwydo ar y fron ac iechyd y geg, a'r potensial am negeseuon cymysg gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Cyfeiriad: Bwydo ar y fron yn ôl oedran y babi a bwrdd iechyd





## CYFLAWNI GWELL IECHYD Y GEG

Mae Cyflawni Gwell Iechyd y Geg yn becyn cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo timau deintyddol â'u rôl wrth wella iechyd y geg ac iechyd cyffredinol cleifion. Mae'n argymell bod bwydo ar y fron yn darparu'r dechrau gorau mewn bywyd ac y dylai babanod gael eu bwydo ar y fron yn unig am tua'r 6 mis cyntaf.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi bod bwydo ar y fron hyd at 12 mis oed yn gysylltiedig â llai o risg o bydredd dannedd a gall gynnig rhywfaint o amddiffyniad o gymharu â fformiwla babanod. Nid yw'r dystiolaeth ar fwydo ar y fron ar ôl un flwyddyn yn syml oherwydd bod llawer o'r ymchwil yn arsylwadol ac nid yw'n addasu ar gyfer newidynnau drysu fel ffactorau deietegol, arferion hylendid y geg a defnyddio cynhyrchion sy'n cynnwys fflworid. Mae angen rhagor o ymchwil wedi'i gynllunio'n dda.

Pan fydd dannedd yn dechrau ymddangos, efallai y bydd rhieni'n codi'r cyfyng-gyngor ynghylch pryd i frwsio dannedd plentyn os yw'n syrthio i gysgu ar y fron. Dylid annog rhieni i frwsio dannedd plant mor agos at amser gwely â phosibl a dilyn y canllawiau cyffredinol, yn hytrach na deffro plentyn er mwyn brwsio ei ddannedd.

Cyfeiriad: Cyflawni Gwell Iechyd y Geg

Tynnwyd y paragraff uchod o Bennod 10 Cyflawni Gwell Iechyd y Geg. Sganiwch y cod QR i ddysgu rhagor am ddeiet yn y blynyddoedd cynnar.


Cadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Adam Porter - adam.porter2@wales.nhs.uk
Is-gadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Jonathan Carter - chairgwentldc@gmail.com
Ysgrifennydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Rebecca Evans - rebecca.evans034@gov.wales